MERCHED Y WAWR A'R CLYBIAU GWAWR
Disgrifiad Swydd
Swyddog Hyrwyddo a Marchnata

DYDDIAD DECHRAU'R SWYDD:	1 Chwefror 2010, (neu mor fuan â phosibl wedi hynny)
CYFNOD Y SWYDD:	Cytundeb 12 mis i'w adolygu'n flynyddol yn ddibynnol ar gwblhau'r cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus. Ariennir y swydd yn rhannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
ORIAU GWAITH:	Hyd at 5 awr yr wythnos – oriau hyblyg i'w trafod gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.
CYFLOG:	Graddfa 23 - 27 pro rata (i'w adolygu)

TEITL A DISGRIFIAD SWYDD

Cyflogir chi gan Ferched y Wawr, Elusen Wirfoddol Rhif 506789, fel Swyddog Hyrwyddo a Marchnata Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr. Mae'n hanfodol fod yr ymgeiswyr yn rhugl yn y Gymraeg. Disgwylir i chi fod yn gydnabyddus ag amcanion a delfrydau'r Mudiad. Disgwylir i chwi ymgymryd â gwaith cyffredinol y mudiad o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

DYLETSWYDDAU:

- Hyrwyddo ac hysbysebu holl weithgareddau'r Mudiad – digwyddiadau Cenedlaethol megis Ciniawau'r Llywydd, Cyrsiau Crefft, Y Penwythnos Preswyl, Gwyl Haf a'r Cyfarfod Blynyddol, Cwis Hwyl, digwyddiadau Merched y Wawr yn y Gwyliau Cenedlaethol sef Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol, Y Sioe Amaethyddol a'r Ffair Aeaf.
- Cydweithio gyda'r swyddogion datblygu/gwawr i hyrwyddo digwyddiadau rhanbarthol.
- Diweddaru'r wefannau.
- Marchnata'r Mudiad a Chylchgrawn Merched y Wawr "Y Wawr".
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol fel bo'r galw

LLEOLIAD AC ORIAU GWAITH

Mae'r swydd hyd at 5 awr yr wythnos – oriau hyblyg. Disgwylir i'r person a apwyntir weithio yn achlysurol ar benwythnosau. Bydd y person a apwyntir yn gweithio o adref – trafodir adnoddau megis ffôn, ffacs a chyfrifiadur yn dilyn cyfweliad. Os gweithir oriau ychwanegol gellir cael amser yn rhydd yn ei le, yn unol â chytundeb gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

TEITHIO

Bydd disgwyl i'r Swyddog deithio fel rhan o'r swydd ac mae trwydded yrru a char yn hanfodol. Telir costau teithio yn unol â thelerau Llywodraeth Leol.

GRADDFA A CHYFLOG

Telir yn fisol. Graddfa 23 - 27 pro rata (i'w adolygu)

GWYLIAU

20 dydd y flwyddyn pro rata ynghyd â 8 o wyliau cyhoeddus a Dydd Gŵyl Ddewi.